

Gweithiwr Cefnogi Gofal Tymor Byr

Cyflog £25,583 - £26,824 / Graddfa G02

Sifftiau cysgu i mewn ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol

*Hafod/Woodlee*

Llawn Amser / Rhan-amser

Parhaol, Amrywiaeth o oriau contract ar gael

Mae'r Tîm Gofal Tymor Byr yn cefnogi pobl gydag anableddau dysgu i fyw bywydau boddhaus yn eu cymuned. Rydym ni'n cefnogi pobl heb brofiadau, gan hybu eu hannibyniaeth a meithrin eu sgiliau byw o ddydd i ddydd, yn cynnwys gofal personol.

Mae'n rhaid i chi feddu ar sgiliau cyfathrebu da a bod yn hunan-ysgogol gyda'r gallu i ysgogi eraill. Bydd gennych chi gymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 neu'n fodlon gweithio tuag ato o fewn cyfnod amser penodol. Bydd ein tîm yn eich cefnogi chi i ddatblygu drwy raglen hyfforddiant a bydd yn rhaid i chi gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a derbyn gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd gofyn i chi weithio fel rhan o dîm ar sail rota gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Gall y rôl hefyd gynnwys sifftiau cysgu i mewn, a delir ar raddfa'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Mae sgiliau ysgrifennu a siarad Cymraeg yn ddymunol.

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn Sir y Fflint, rydym yn cynnig isafswm o 34 diwrnod o wyliau blynyddol, gan gynnwys Gwyliau Banc, yn cynyddu i 41 diwrnod • Mynediad at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol • Cynlluniau hael sy'n ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd gwaith-bywyd • Gweithio'n hybrid (swyddi penodol) • Mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd datblygu • Rhaglen cymorth gweithwyr am ddim • Cynllun Beicio i'r Gwaith • Gostyngiadau ar draws masnachwyr y DU.

Ar gyfer y swydd hon rydym ni'n fodlon trafod trefniadau gweithio rhan-amser a rhannu swydd.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs am y swydd, cysylltwch â:
Michelle Kinnair, Short Term Care Manager michelle.kinnair@flintshire.gov.uk
01244 545351 neu yn Gymraeg 01267 224923

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council